# 2.1.4 (b) Atal ac Ymyrryd yn Gynnar er mwyn Hybu a Chefnogi Twf, Datblygiad a Lles ar Gyfer Amrywiaeth o Gyflyrau

cbac wjec

At yr arholiad, bydd angen i chi ddeall y cyflyrau sy'n galw am ofal a chefnogaeth ychwanegol er mwyn cynnal iechyd a lles pan fydd gan bobl gyflyrau acíwt a chronig.

Cyflwr cronig = cyflyrau tymor hir, sydd fel arfer yn para'n hir ac yn datblygu ac o bosibl yn gwaethygu dros gyfnod o amser e.e. clefyd Crohn.

Cyflyrau acíwt = cyflyrau tymor byr, maen nhw fel arfer yn digwydd yn sydyn, gyda symptomau sy'n ymddangos yn syth neu'n datblygu'n gyflym, ac maen nhw'n para cyfnod cyfyngedig e.e. y ffliw.

## Salwch tymor byr

Salwch sy'n cynnwys:

- Gwenwyn bwyd
- Brechau
- Twymyn
- Peswch ac annwyd
- Brech yr ieir
- Y frech goch

## Cyflyrau tymor hir

Cyflyrau sy'n cynnwys:

- Gordewdra
- Clefyd Crohn
- Clefyd siwgr
- Clefyd y galon
- Arthritis
- Dementia
- Canser

*Mae modd ATAL rhai cyflyrau!*

Clefyd y galon

Gordewdra

Y frech goch

Gwenwyn bwyd

Diabetes math 2

## Gofal a chefnogaeth

- gan ddarparwyr/gweithwyr proffesiynol ym maes gwasanaethau iechyd
- yn anffurfiol gan aelodau'r teulu
- cefnogaeth gan y gymuned
- cefnogaeth gan wasanaethau gwirfoddol.

## Cefnogaeth ffurfiol:

## wedi'i darparu gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol

- Gofal sylfaenol
- Gofal eilaidd a thrydyddol
- Gofal perthynol i iechyd

## Swyddi perthynol i iechyd

e.e. Deietegydd, ffisiotherapydd, therapydd iaith a lleferydd, gweithiwr gofal yn y cartref, radiograffydd, podiategrydd, orthoptydd.

## Cefnogaeth anffurfiol

Cefnogaeth anffurfiol: yn cael ei darparu gan unigolion nad ydyn nhw'n cael eu talu i roi cymorth a chefnogaeth.

e.e.

- Partneriaid
- Aelodau'r teulu
- Ffrindiau
- Cymdogion
- Cydweithwyr

## Enghreifftiau o wasanaethau eilaidd:

- Ysbytai
- Cardiolegydd
- Paediatregydd
- Niwrolegydd
- Timau iechyd meddwl cymunedol